# Allyriadau ymbelydrol

| | |
|---|---|
| ALYA | Alla i'm aros i gwrdd ag e! |
| AIYSHA | Na fi. Roedd o mor dda yn *Uncivil War*. |
| ALYA | O! Mae'n siŵr mai Tarantula Man ydy'r arwr gorau i mi weld ar y sgrin erioed. |
| ALPHA MAN | Ha! 'Sdim syniad gyda chi  am be 'dych chi'n sôn. Tarantula Man! Gurais i ddynion caletach na fe ar fy sioe deledu bob wythnos!<br><br>Fi oedd dyn cryfa'r Bydysawd. Alpha Man. |
| ADA | Mae yna dri gwahanol fath o ymbelydredd -  alffa, beta a gama.<br><br>Gall ymbelydredd gama deithio drwy a threiddio llawer o ddefnyddiau, ond mae plwm  ei arafu. Mae ymbelydriad gama yn cael ei ddefnyddio mewn sgan pelydr X, i drin canser ac i ddiheintio offer meddygol.<br><br>Gama yw'r mwyaf treiddgar o'r tri. |
| ALPHA MAN | Ha! Gurais i Gamma Man ym mhennod dau ddeg chwech! Mae gen i dalent ymbelydrol prin. |
| ADA | 'Dyw ymbelydredd ddim yn brin o gwbl.<br><br>Mae bananas yn allyrru ymbelydriad beta, ac mae pelydriad cefndirol ym mhobman.<br><br>Mae pelydriad beta yn llai treiddgar na phelydriad gama ac mae'n gallu cael ei stopio gan alwminiwm. Ry' ni'n defnyddio ymbelydriad beta i gadw golwg ar drwch defnyddiau. |
| ALYA | Felly cest ti dy drechu gan ffoil alwminiwm? |


© Hawlfraint BBC

| | |
|---|---|
| ALPHA MAN | Ti’n tynnu ‘ngoes i? Gurais i Aluminium Man fwy nag unwaith! |
| ADA | Ymbelydriad alffa yw’r lleiaf treiddgar o’r tri. |
| ALPHA MAN | Am be’ ti’n sôn? |
| ADA | ‘Dyw e ddim hyd yn oed yn gallu treiddio darn o bapur, ond mae’n ddefnyddiol mewn synhwyrydd mwg. |
| ALPHA MAN | A! Clywch y larwm tân ‘na. Dyna ymbelydriad alffa’n ar flaen y gad eto fyth! |


© Hawlfraint BBC